Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg.

This document is available in Welsh as well as English.

COMISIYNYDD
HEDDLU A THROSEDDU
DYFED-POWYS
POLICE AND CRIME
COMMISSIONER

## ADRODDIAD / TAFLEN CRYNHOI PENDERFYNIAD

**DIBEN: PENDERFYNIAD COMISIYNYDD**

**Amseru: Brys – cyn dechrau blwyddyn ariannol 2017/18**

**Teitl: Strategaeth Rheoli'r Trysorlys 2017/18**

**Categori Penderfyniad / Effaith Maes Busnes: Cyllid**

**Crynodeb Gweithredol:**

Amlinella'r ddogfen hon Strategaeth Rheoli'r Trysorlys Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu gan gynnwys polisi Dangosyddion Darbodus, Gofyniad Ariannu a Darpariaeth Isafswm Refeniw ar gyfer 2017/18 yn dilyn craffu yng nghyfarfod y Cyd-bwyllgor Archwilio ar 29 Mawrth 2017.

**Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys**

Cadarnhaf fy mod wedi ystyried a oes gennyf unrhyw ddiddordeb personol neu sy'n rhagfarnu yn y mater hwn a fy mod wedi gwneud y penderfyniad arfaethedig yn unol ag Egwyddorion Nolan ar gyfer Ymddygiad mewn Bywyd Cyhoeddus.

Rwy'n cymeradwyo'r cais uchod.

**Llofnod:** Dafydd Llywelyn

**Dyddiad: 30 Mawrth 2017**

COMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDDU DYFED-POWYS
POLICE AND CRIME COMMISSIONER

Heddlu•Police DYFED-POWYS
Diogelu ein Cymuned – Safeguarding our Community

**DIBEN:** CRAFFU CYD-BWYLLGOR ARCHWILIO

**Amseru: Cyn dechrau Blwyddyn Ariannol 2017/18**

**Teitl:** Datganiad Strategaeth Rheoli'r Trysolys ar gyfer 2017/18

**Categori Penderfyniad / Effaith Maes Busnes:** Cyllid

**Crynodeb Gweithredol:**

Mae Cod Ymarfer Rheolaeth Ariannol y Swyddfa Gartref yn datgan bod Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu yn uniongyrchol gyfrifol am fenthyciadau, buddsoddiadau ac am fenthyca arian. Dylai Prif Swyddog Ariannol Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu benderfynu pa fuddsoddiadau y dylid eu gwneud yn lleol a chymeradwyo unrhyw fenthyciadau. Mae penderfyniadau ar Fenthyca ac Ariannu Cyfalaf hefyd yn ffurfio rhan o gyfrifoldeb Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu.

Trwy reoliadau ariannol y cytunir arnynt yn lleol a Fframwaith Llywodraethu Corfforaethol gallai rheolaeth ddyddiol ar Fenthyciadau a Buddsoddiadau yn unol â'r polisïau cymeradwy gael eu cynnal gan staff Prif Swyddogion Ariannol yr Heddlu.

Dylid trefnu'r holl fenthyciadau a buddsoddiadau yn unol ag arfer gorau fel yr ymgyrfforir yn Cod Ymarfer CIPFA ar Reoli'r Trsorlys a dylai'r holl fenthyciadau yr ymgymerir â hwy gydymffurfio â Chod Ariannu Cyfalaf o fewn Awdurdodau Lleol darbodus CIPFA.

Mae Cod Ymarfer Rheoli'r Trysorlys o fewn Gwasanaethau Cyhoeddus Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth yn gofyn am benderfyniad Datganiad Strategaeth Rheoli'r Trysorlys (TMSS) yn flynyddol. Mae'r TMSS hefyd yn cynnwys y Strategaeth Buddsoddi Blynyddol sy'n ofyniad yng Nghanllawiau Buddsoddi Llywodraeth Cymru.

Mae'r ddogfen hon yn amlinellu'r polisïau a'r gweithdrefnau y mae'r CHTh wedi'u sefydlu ar gyfer bodloni'r gofynion statudol hyn ar gyfer y flwyddyn 2017/18.

**Argymhelliad:**

I'w ystyried a derbyn sylwadau gan y Cyd-bwyllgor Archwilio.

COMISIYNYDD
HEDDLU A THROSEDDU
DYFED-POWYS
POLICE AND CRIME
COMMISSIONER

Heddlu•Police
DYFED-POWYS
Diogelu ein Cymuned - Safeguarding our Community

## Adroddiad Prif Swyddog Ariannol y CHTh

## Strategaeth Rheoli'r Trysorlys a Pholisi Buddsoddi

### 1. Diben yr Adroddiad

Mae *Rheoli'r Trysorlys yn y Gwasanaethau Cyhoeddus; rhifyn Cod Ymarfer 2011* (cod CIPFA) y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth yn gofyn i'r CHTh gymeradwyo strategaeth rheoli'r trysorlys cyn dechrau pob blwyddyn ariannol.

Yn ychwanegol, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru (LlC) *Canllaw ar Fuddsoddiadau Awdurdod Lleol* diwygiedig ym mis Mawrth 2010 sy'n gofyn i'r CHTh gymeradwyo strategaeth fuddsoddi cyn dechrau pob blwyddyn ariannol.

Mae'r adroddiad hwn yn bodloni rhwymedigaeth gyfreithiol y CHTh o dan y *Ddeddf Llywodraeth Leol 2003* i ystyried Cod CIPFA a Chanllaw LlC.

Mae'r CHTh wedi buddsoddi symiau sylweddol o arian a chan hynny yn agored i risgiau ariannol gan gynnwys colli arian sydd wedi'i fuddsoddi ac effaith refeniw cyfraddau llog newidiol. Mae adnabod, monitro a rheoli risg yn llwyddiannus gan hynny yn ganolog i strategaeth rheoli'r trysorlys y CHTh.

Yn unol â Chanllawiau LlC, gofynnir i'r CHTh gymeradwyo Datganiad Strategaeth Rheoli'r Trysorlys diwygiedig pe bai'r rhagdybiaethau y mae'r adroddiad hwn wedi'u seilio arnynt yn newid yn sylweddol. Byddai amgylchiadau o'r fath yn cynnwys, er enghraifft, newid annisgwyl mawr mewn cyfraddau llog neu yn lefel ei falans buddsoddi.

Dylai Prif Swyddog Ariannol y CHTh weithredu a monitro polisïau a gweithdrefnau rheoli'r trysorlys yn unol â'r cod CIPFA a chanllawiau proffesiynol eraill.

### 2. Cyd-destun Allanol

#### 2.1 Cyd-destun Allanol

Y dylanwad allanol mawr ar Strategaeth Rheoli'r Trysorlys ar gyfer 2017/18 fydd cynnydd y DU wrth drafod ymadawiad llyfn o'r Undeb Ewropeaidd. Mae'r marchnadoedd ariannol, a gafodd eu synnu gan ganlyniad y refferendwm, ers hynny wedi'u pwyso i lawr gan ansicrwydd a fydd gadael yr Undeb hefyd yn golygu gadael y farchnad sengl. Disgwylir dechrau ar y trafodaethau unwaith y mae'r DU yn sbarduno'r ymadawiad yn ffurfiol yn gynnar yn 2017 a bydd yn para am o leiaf

dwy flynedd. Bydd ansicrwydd ynglŷn â rhagolygon economaidd yn y dyfodol yn parhau felly trwy gydol 2017/18.

Mae cwymp a gwendid parhaus y bunt a phris olew fwy neu lai yn dyblu yn 2016 wedi cyfrannu at yrru disgwyliadau chwyddiant yn uwch. Mae Banc Lloegr yn rhagweld y bydd Chwyddiant Pris Defnyddwyr yn torri ar ei darged o 2% yn 2017, am y tro cyntaf ers yn hwyr yn 2013, ond mae disgwyl i'r Banc edrych sawl gwaith y mae chwyddiant wedi codi'n rhy uchel yn ystod 2017 wrth osod cyfraddau llog er mwyn osgoi bwrw'r economi oddi ar y cledrau.

## 2.2 Rhagolwg credyd

Mae marchnadoedd wedi mynegi pryder dros hyfywdra ariannol nifer o fanciau Ewropeaidd yn ddiweddar. Mae economïau araf a dirwyon parhaus ar gyfer ymddygiad cyn yr argyfwng wedi pwyso ar elw banciau, a bydd unrhyw arafu yn y dyfodol yn dwysau pryderon o ran hyn.

Mae deddfwriaeth achub (*bail-in*), sy'n sicrhau y bydd buddsoddwyr mawr gan gynnwys awdurdodau lleol a Chomisiynwyr Heddlu a Throseddu yn achub banciau sy'n methu yn hytrach na threthdalwyr yn y dyfodol, bellach wedi'i gweithredu yn llawn yn yr Undeb Ewropeaidd, Y Swistir ac UDA, ac mae Awstralia a Chanada yn datblygu eu cynlluniau eu hunain. Mae'r risg credyd sy'n gysylltiedig â gwneud adnau banc ansicredig gan hynny wedi cynyddu yn gymharol â risg opsiynau buddsoddi eraill sydd ar gael i'r CHTh; mae adenillion o adnau arian parod serch hynny yn parhau i ddisgyn.

## 2.3 Rhagolwg cyfradd llog

Achos canolog Arlingclose, cynghorydd trysorlys Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu, yw i Gyfradd Banc y DU barhau ar 0.25% yn ystod 2017/18. Serch hynny, mae Banc Lloegr wedi tynnu sylw na fydd lefelau gormodol o chwyddiant yn cael ei oddef am gyfnodau parhaus. O ystyried y farn hon a'r rhagolwg chwyddiant cyfredol, mae cwympiadau pellach yng Nghyfradd y Banc yn edrych yn llai tebygol. Mae Cyfradd Banc Negyddol yn cael ei weld gan rai llunwyr polisi ar hyn o bryd yn wrthgynhyrchiol ond, er bod tebygolrwydd isel, ni ellir ei ddiystyru yn llwyr yn y tymor canolig, yn enwedig os yw'r DU yn mynd i ddirwasgiad o ganlyniad i bryderon dros adael yr Undeb Ewropeaidd.

At ddiben gosod y gyllideb, tybir y bydd buddsoddiadau newydd yn cael eu gwneud ar gyfradd gyfartalog o 0.35% gyda balans arian cyfartalog o £28.740 miliwn ar gyfer y flwyddyn.

## 2.4 Cyd-destun Lleol

Ar 30 Medi 2016, roedd gan y Comisiynydd £2.378 milwn o fenthyciadau ac ar 28 Chwefror 2017, cyfanswm y buddsoddiadau oedd £29.836 miliwn. Amlinellir hyn ymhellach yn Atodiad A. Dangosir newidiadau rhagolwg yn y symiau hyn yn y dadansoddiad mantolen yn nhabl 1 isod.

**Tabl 1: Crynodeb a Rhagolwg Mantolen**

| | 31.3.16<br>Gwirioneddol<br>£miliwn | 31.3.17<br>Amcan<br>£miliwn | 31.3.18<br>Rhagolwg<br>£miliwn | 31.3.19<br>Rhagolwg<br>£miliwn | 31.3.20<br>Rhagolwg<br>£miliwn |
|---|---|---|---|---|---|
| **Cyfanswm CFR *** | 0 | 0 | 0 | 3.5 | 7.2 |
| Llai: Benthyciadau allanol ** | -2.3 | -2.3 | -2.1 | -5.4 | -8.9 |
| Llai: Cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy | -32.9 | -26.0 | -16.9 | -10.8 | -8.3 |
| Llai: Cyfalaf gwaith | -2.8 | -1.5 | -1.5 | -1.5 | -1.5 |
| **Buddsoddiadau (neu Fenthyciadau Newydd)** | **-38.0** | **-29.8** | **-20.5** | **-14.2** | **-11.5** |

* Iesau cyllid, rhwymedigaethau Menter Ariannu Breifat a dyled wedi'i throsglwyddo sy'n ffurfio rhan o gyfanswm dyled Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu
** yn dangos dim ond benthyciadau y mae Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu yn ymrwymedig iddynt ac eithrio ail-ariannu dewisol

Mae'r angen gwaelodol i fenthyca at ddibenion cyfalaf yn cael ei fesur gan y Gofyniad Ariannu Cyfalaf (CFR), a chronfeydd wrth gefn defnyddiadwy a chyfalaf gweithio yw'r adnoddau gwaelodol sydd ar gael i'w buddsoddi. Strategaeth gyfredol y Comisiynydd yw cynnal benthyciadau a buddsoddiadau islaw eu lefelau gwaelodol, a elwir weithiau yn benthyca mewnol.

Mae gan y Comisiynydd CFR cynyddol o 2018/19 ymlaen er mwyn bodloni galwadau'r rhaglen gyfalaf a chan hynny bydd yn benthyca hyd at £7.4 miliwn yn ystod y cyfnod rhagolwg.

Mae Cod Darbodus ar gyfer Cyllid Cyfalaf o fewn Awdurdodau Lleol CIPFA yn argymell y dylai dyled Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu fod yn is na'i CFR rhagolwg uchaf yn ystod y tair blynedd nesaf.

Dylid nodi bod dyled allanol yn uwch na'r CFR yn 2016/17. Mae hyn o ganlyniad i'r CFR yn gostwng mwy na'r disgwyl pan wnaethom gymryd y benthyciadau hirdymor yr ydym yn eu dal yn y lle cyntaf (mae'r cyfan wedi'u dyddio cyn 1990). Mae'r premiymau ad-dalu ar y dyledion Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus hyn yn waharddol a chan hynny mae'n fwy cost effeithiol parhau â'r benthyciadau hyn yn hytrach na'u talu yn gynnar. Yn ychwanegol, mae Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu yn derbyn cyfraniad grant tuag at gostau ariannu dyledion cyn 1990 ar 51% o gostau'r taliadau llog tybiannol sy'n weddill ac ad-daliad isafswm refeniw.

## 3. Strategaeth Fenthyca

Fel y crybwyllwyd yn flaenorol, mae gan y CHTh gwerth £2.278 miliwn o fenthyciadau ar hyn o bryd, gostyngiad o £0.144 miliwn ar y flwyddyn flaenorol, fel rhan o'i strategaeth ar gyfer ariannu rhaglenni cyfalaf blynyddoedd blaenorol. Nid yw'r CHTh yn disgwyl gorfod benthyca yn 2017/18. Serch hynny fe allai'r CHTh fenthyca i gyn-ariannu gofynion y blynyddoedd i ddod, ar yr amod nad yw hyn yn rhagori ar y cyfyngiad awdurdodedig ar gyfer benthyca.

Prif amcan y CHTh wrth fenthyca arian yw taro cydbwysedd risg isel priodol rhwng sicrhau costau llog isel a chyflawni sicrwydd o'r costau hynny yn ystod y cyfnod y mae'r arian yn ofynnol. Mae'r hyblygrwydd i ail-drafod benthyciadau pe bai cynlluniau hirdymor y CHTh yn newid yn amcan eilaidd.

Gall y CHTh fenthyca benthyciadau byr dymor (fel arfer am hyd at fis o hyd) i dalu am brinder llif arian annisgwyl.

### 3.1 Ffynonellau

Y ffynonellau cymeradwy ar gyfer benthyciadau hirdymor a byr dymor yw:

- Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus (PWLB) ac unrhyw gorff olynydd;
- unrhyw sefydliad sydd wedi'i gymeradwyo ar gyfer buddsoddiadau (gweler isod);
- unrhyw fanc neu gymdeithas adeiladu arall sydd wedi'u hawdurdodi i weithredu yn y DU;
- cronfeydd pensiwn sector cyhoeddus a phreifat y DU (ac eithrio Cronfa Bensiwn Dyfed-Powys);
- buddsoddwyr bond marchnadoedd cyfalaf;
- Cwmnïau diben arbennig sydd wedi'u creu i alluogi materion bond awdurdod lleol.

Yn ychwanegol, gallai cyllid cyfalaf gael ei godi trwy'r dulliau a ganlyn nad ydynt yn fenthyciadau, ond fe ellir eu dosbarth fel rhwymedigaethau dyledion eraill:

- lesau gweithredu a chyllid;
- hurbrynu ;
- gwerthiant ac adlesu.

Yn flaenorol, roedd yr holl fenthyciadau hirdymor wedi'u codi o'r Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus ond mae'n parhau i ymchwilio i ffynonellau ariannu eraill, megis benthyciadau awdurdod lleol a benthyciadau banc a allai fod ar gael ar gyfraddau mwy ffafriol.

Bydd yr holl fenthyciadau angen cymeradwyaeth Prif Swyddog Ariannol Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu neu Brif Swyddog Ariannol y Prif Gwnstabl

(dim ond o dan amgylchiadau nad yw Prif Swyddog Ariannol Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu ar gael).

Mae cynlluniau gwariant cyfalaf y CHTh yn awgrymu y bydd angen benthyca ym mlynyddoedd ariannol 2018/19 i 2023/24. Disgwylir i lefelau arian wrth gefn gwympo i £8.330 miliwn yn 2023/24 wrth i gronfeydd wrth gefn cyfalaf / derbynebau gael eu defnyddio i ariannu gwariant cyfalaf.

## 4. Strategaeth Fuddsoddi

Mae gan y CHTh gronfeydd sylweddol wedi'u buddsoddi, sy'n cynrychioli incwm a dderbynnir o flaen llaw gwariant ynghyd â balans a chronfeydd wrth gefn a gedwir. Yn ystod y 12 mis diwethaf, mae balans buddsoddi'r CHTh wedi amrywio rhwng £28 a £45 miliwn. O ganlyniad i ddefnyddio'r gronfa wrth gefn i ariannu'r rhaglen gyfalaf disgwylir i'r balans buddsoddi ostwng yn 2017/18.

Mae Cod CIPFA a Chanllawiau LIC yn gofyn i'r CHTh fuddsoddi'n ddarbodus, ac ystyried diogelwch a hylifedd ei fuddsoddiadau cyn ceisio'r gyfradd adennill uchaf, neu elw. Yr amcan wrth fuddsoddi arian yw taro'r cydbwysedd priodol rhwng risg ac elw, gan isafu ar y risg o golledion o ddiffygdaliadau a'r risg o dderbyn incwm buddsoddi anaddas o isel.

Cyfraddau Llog Negyddol: Os aiff y DU i ddirwasgiad yn 2017/18, mae siawns fechan y gallai Banc Lloegr osod ei Gyfradd Banc ar sero neu'n is, sy'n debygol o fwydo trwodd i gyfraddau llog negyddol ar bob opsiwn buddsoddi tymor byr, risg isel. Mae'r sefyllfa eisoes yn bodoli yn nifer o wledydd Ewropeaidd eraill. Yn yr achos hwn, bydd diogelwch yn cael ei fesur fel derbyn y swm y cytunwyd arno yn gytundebol wrth aeddfedu, er y gallai hyn fod yn llai na'r swm gwreiddiol a fuddsoddwyd.

O ystyried y risg cynyddol ac adenillion isel parhaus o fuddsoddiadau banc ansicredig byr dymor, mae'r CHTh yn anelu at amrywio ymhellach i ddosbarthiadau mwy diogel a/neu ag elw uwch yn ystod 2017/18. Mae hyn yn arbennig o wir ar gyfer y £5 miliwn amcangyfrifedig sydd ar gael ar gyfer buddsoddiad tymor hwy. Mae arian gwarged y CHTh wedi'i fuddsoddi mewn nifer o wahanol fathau o fuddsoddiadau gan gynnwys adnau banc ansicredig byr dymor, tystysgrifau adnau ac adnau banc sicredig. Bydd yr amrywiad hwn yn cynrychioli parhad ar y strategaeth newydd a fabwysiadwyd yn 2016/17.

### 4.1 Partïon i Gontract Cymeradwy

Gallai'r CHTh fuddsoddi ei arian gwarged gydag unrhyw fathau o bartïon i gontract yn nhabl 2 isod, yn amodol ar y cyfyngiadau arian (fesul parti i gontract) a'r cyfyngiadau amser a ddangosir.

Ni fydd y buddsoddiadau sicredig ac ansicredig cyfun mewn unrhyw un banc yn rhagori ar y cyfyngiad arian ar gyfer buddsoddiadau sicredig.

Bydd cyfyngiadau parti i gontract yn cael eu hadolygu yn chwarterol a byddant yn cael eu diwygio yn ôl yr angen gan ddibynnu ar falansau buddsoddi.

**Tabl 2: Partïon i Gontract a Chyfyngiadau Buddsoddi Cymeradwy**

| Cyfradd Gredyd | Ansicredig Banciau/ Cymdeithasau Adeiladu | Sicredig Banciau | Llywodraeth | Corfforedig | Darparwyr Cofrestredig |
|---|---|---|---|---|---|
| Llywodraeth y DU | amh. | amh. | £ Anghyfyngedig 50 mlynedd | amh. | amh. |
| AAA | £3 miliwn 5 mlynedd | £3 miliwn 20 mlynedd | £3 miliwn 50 mlynedd | £1.5 miliwn 20 mlynedd | £1.5 miliwn 20 mlynedd |
| AA+ | £3 miliwn 5 mlynedd | £3 miliwn 10 mlynedd | £3 miliwn 25 mlynedd | £1.5 miliwn 10 mlynedd | £1.5 miliwn 10 mlynedd |
| AA | £3 miliwn 4 blynedd | £3 miliwn 5 mlynedd | £3 miliwn 15 mlynedd | £1.5 miliwn 5 mlynedd | £1.5 miliwn 10 mlynedd |
| AA- | £3 miliwn 3 blynedd | £3 miliwn 4 blynedd | £3 miliwn 10 mlynedd | £1.5 miliwn 4 mlynedd | £1.5 miliwn 10 mlynedd |
| A+ | £3m 2 flynedd | £3 miliwn 3 blynedd | £1.5 miliwn 5 mlynedd | £1 miliwn 3 mlynedd | £1.0 miliwn 5 mlynedd |
| A | £3 miliwn 13 mis | £3 miliwn 2 flynedd | £1.5 miliwn 5 mlynedd | £1 miliwn 2 flynedd | £1.0 miliwn 5 mlynedd |
| A- | £3 miliwn 6 mis | £3 miliwn 13 mis | £1.5 miliwn 5 mlynedd | £1 miliwn 13 mis | £1.0 miliwn 5 mlynedd |
| *BBB+ | £3 miliwn 6 mis | £3 miliwn 13 mis | £1.5 miliwn 5 mlynedd | £1 miliwn 13 mis | £1.0 miliwn 5 mlynedd |
| Dim | £1 miliwn 6 mis | Amh. | £2 miliwn 5 mlynedd | Dim | Dim |
| Cronfeydd Cyfun (dim mwy na £3 miliwn fesul cronfa) a dim mwy na 50% o gyfanswm buddsoddiadau | | | | | |

* Ni fydd buddsoddiadau newydd yn cael eu gwneud gyda banciau â'r cyfraddau hyn

Dylid nodi ein bod wedi ystyried gostwng cyfyngiadau partïon i gontract o ystyried bod disgwyl i falans ostwng, serch hynny wrth i ni agosáu at ddechrau'r flwyddyn ariannol mae gennym £3 miliwn mewn un sefydliad. Er mwyn osgoi torri'r cyfyngiadau hyn rydym wedi cynnal y lefelau cyfredol, serch hynny byddant yn cael eu hadolygu a'u gostwng os yw'n briodol yn ystod y cyfnod adolygu canol blwyddyn.

Offeryn buddsoddi amgen sydd wedi dod ar gael yw Cytundebau Prynu Cildro (Repo). Mae ein Cynghorwyr Trysorlys wedi datgan bod y rhain wedi'u dosbarthu o dan y categori "banciau sicredig."

Mae diffiniadau o'r derminoleg uchod wedi'u cynnwys yn Atodiad B.

## 4.2 Asesiad Risg a Statws Credyd

Mae statws credyd yn cael ei gasglu a'i fonitro gan gynghorwyr trysorlys y CHTh, a fydd yn hysbysu am newidiadau mewn statws wrth iddynt ddigwydd. Pan fydd endid yn cael ei statws credyd wedi'i israddio a'i fod yn methu â bodloni'r meini prawf buddsoddi cymeradwy yna:

- ni fydd unrhyw fuddsoddiadau newydd yn cael eu gwneud,
- bydd unrhyw fuddsoddiadau cyfredol y gellir eu had-alw neu'u gwerthu heb gost yn cael eu gwneud, a
- bydd ystyriaeth lawn yn cael ei rhoi i adalw neu werthu'r holl fuddsoddiadau cyfredol eraill gyda'r parti i gontract yr effeithir arno.

Os yw asiantaeth statws credyd yn cyhoeddi bod statws credyd yn cael ei adolygu ar gyfer israddio posibl (a elwir hefyd yn "gwylio cyfradd negyddol" neu "gwylio credyd negyddol") fel y gallai gwympo islaw'r meini prawf statws cymeradwy, yna dim ond buddsoddiadau y gellir eu tynnu'n ôl [ar y diwrnod gwaith nesaf] a fydd yn cael eu gwneud gyda'r sefydliad hwnnw hyd nes cyhoeddi canlyniad yr adolygiad. Ni fydd y polisi hwn yn berthnasol i ragolygon negyddol, sy'n nodi cyfeiriad hirdymor y teithio yn hytrach na'r newid ar ddigwydd yn y statws.

**4.3 Gwybodaeth Arall ar Ddiogelwch Buddsoddiadau**: Mae'r CHTh yn deall bod y statws credyd yn rhagfynegyddion da, ond nid yn berffaith, ar ddiffygdaliad buddsoddi. Gan hynny bydd ystyriaeth lawn yn cael ei rhoi i wybodaeth arall sydd ar gael ar ansawdd credyd y sefydliadau y mae'n buddsoddi ynddynt, gan gynnwys prisiau cyfnewid diffygdaliad credyd, datganiadau ariannol, gwybodaeth ar gymorth llywodraeth posibl ac adroddiadau yn y wasg ariannol o ansawdd. Ni fydd unrhyw fuddsoddiadau yn cael eu gwneud gyda sefydliad os ceir amheuon sylweddol am ei statws credyd, er y gallai fod yn bodloni'r meini prawf statws credyd.

Pan fydd amodau marchnad ariannol sy'n dirywio yn effeithio ar deilyngdod credyd pob sefydliad, fel y digwyddodd yn 2008 a 2011, nid yw hyn yn gyffredinol yn adlewyrchu yn y statws credyd, ond gellir ei weld mewn mesurau marchnad eraill. O dan yr amgylchiadau hyn, bydd y CHTh yn cyfyngu ar ei fuddsoddiadau i'r sefydliadau hynny o ansawdd credyd uwch ac yn gostwng hyd uchaf ei fuddsoddiadau i gynnal y lefel ddiogelwch ofynnol. Bydd graddau'r cyfyngiadau hyn yn unol ag amodau marchnad ariannol pennaf. Os yw'r cyfyngiadau hyn yn golygu nad oes digon o sefydliadau masnachol o ansawdd credyd uchel ar gael i fuddsoddi balans arian y CHTh, yna bydd y gwarged yn cael ei adneuo gyda Llywodraeth y DU, trwy'r Swyddfa Rheoli Dyledion neu eu buddsoddi ym miliau trysorlys llywodraeth er enghraifft, neu gydag awdurdodau lleol eraill. Bydd hyn yn achosi gostyngiad yn lefel yr incwm buddsoddi a enillir, ond bydd yn diogelu'r prif swm a fuddsoddwyd.

## 4.4 Buddsoddiadau Penodedig

Mae Canllawiau LIC yn diffinio buddsoddiadau penodedig fel y rheini:

- sydd wedi'u henwi mewn punt sterling,
- sy'n ddyledus i'w had-dalu o fewn 12 mis i'r cytundeb,

- nad ydynt wedi'u diffinio fel gwariant cyfalaf trwy ddeddfwriaeth, a
- sydd wedi'u buddsoddi gydag un o:
  - Llywodraeth y DU,
  - awdurdod lleol, cyngor plwyf neu gyngor cymuned y DU, neu
  - corff neu gynllun buddsoddi o "ansawdd credyd uchel".

Mae Dyfed Powys yn diffinio sefydliadau a gwarantau o "ansawdd credyd uchel" fel y rheini sydd â statws credyd o A- neu uwch sydd yn preswylio yn y DU neu wlad dramor gyda statws sofran o AA+ neu uwch

### 4.5 Buddsoddiadau Amhenodedig

Mae unrhyw fuddsoddiad nad yw'n bodloni diffiniad buddsoddiad penodedig yn cael ei ddosbarthu fel buddsoddiad amhenodedig. Nid yw Dyfed Powys yn bwriadu gwneud unrhyw fuddsoddiadau sydd wedi'u henwi mewn arian tramor. Gan hynny bydd buddsoddiadau amhenodedig yn cynnwys buddsoddiadau hirdymor, h.y. y rheini y mae disgwyl iddynt aeddfedu 12 mis neu'n fwy o ddyddiad y cytundeb. Dangosir cyfyngiadau ar fuddsoddiadau amhenodedig yn nhabl 3 isod.

**Tabl 3: Cyfyngiadau Buddsoddi Amhenodedig**

| | **Cyfyngiad arian** |
|---|---|
| Cyfanswm buddsoddiadau hirdymor | £30 miliwn |
| Cyfanswm Cyfranddaliadau mewn Cronfeydd Marchnad Ariannol | £10 miliwn |
| Cyfanswm Cyfranddaliadau mewn cronfeydd cyfun eraill | £8 miliwn |
| Cyfanswm buddsoddiadau heb statws credyd neu wedi'u graddio islaw [A-] | £4 miliwn |
| Cyfanswm buddsoddiadau gyda sefydliadau sy'n preswylio mewn gwledydd tramor sydd wedi'u graddio islaw [AA+] | £5 miliwn |
| Swm uchaf i'w fuddsoddi mewn buddsoddiadau amhenodedig | £35 miliwn |

### 4.6 Cyfyngiadau Buddsoddi

Rhagwelir y bydd cronfeydd wrth gefn refeniw Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu sydd ar gael i dalu am golledion buddsoddi annisgwyliadwy (cronfa wrth gefn gyffredinol) yn £4.5 miliwn ar 31 Mawrth 2017. Y swm uchaf a fydd yn cael ei fenthyca i un sefydliad (ac eithrio Llywodraeth y DU) fydd £3 miliwn. Bydd grŵp o fanciau dan yr un berchnogaeth yn cael ei drin fel un sefydliad at ddibenion y cyfyngiad. Bydd cyfyngiadau yn cael eu gosod hefyd ar reolwyr cronfa, buddsoddiadau mewn cyfrifon enwebedig broceriaid, gwledydd tramor a sectorau diwydiant fel yr isod. Nid yw buddsoddiadau mewn banciau datblygu amlochrog yn

cyfrif yn erbyn y cyfyngiad ar gyfer un wlad dramor, gan fod y risg wedi'i hamrywio dros sawl gwlad.

**Tabl 4: Cyfyngiadau Buddsoddi**

| | Cyfyngiad Arian |
|---|---|
| Unrhyw un sefydliad, ac eithrio Llywodraeth Ganolog y DU | £3 miliwn yr un |
| Llywodraeth Ganolog y DU | anghyfyngedig |
| Unrhyw grŵp o sefydliadau o dan yr un berchnogaeth | £3 miliwn fesul grŵp |
| Offerynnau trafodadwy a gedwir yng nghyfrif enwebedig brocer | £25 miliwn fesul brocer |
| Gwledydd tramor | £6 miliwn fesul gwlad |
| Darparwyr Cofrestredig | £5 miliwn i gyd |
| Buddsoddiadau amhenodedig gyda Chymdeithasau Adeiladu | £4 miliwn i gyd |

### 4.7 Rheoli Hylifedd

Mae Dyfed Powys yn cwblhau rhagolwg llif arian blynyddol sy'n amcangyfrif y sefyllfa llif arian misol. Bydd hyn yn cael ei ddefnyddio i bennu'r cyfnod hwyaf y gellir ymrwymo arian yn ddarbodus. Llunnir y rhagolwg hwn ar sail ddarbodus, gyda derbynebau yn cael eu tanamcangyfrif a thaliadau yn cael eu goramcangyfrif er mwyn isafu ar y risg o'r heddlu yn cael eu gorfodi i fenthyca ar delerau anffafriol i fodloni'i ymrwymiadau ariannol.

Mae cyfyngiadau ar fuddsoddiadau hirdymor yn cael eu gosod trwy gyfeirio at gynllun ariannol a rhagolwg llif arian tymor canolig y CHTh.

Bydd Dyfed Powys yn anelu at gael isafswm o £2 miliwn mewn cyfrifon galw at ddibenion hylifedd tymor byr.

Mae buddsoddiadau yn cael eu gwneud hefyd mewn Biliau Trysorlys a Thystysgrifau Adnau sy'n hylifol ac y gellir eu gwerthu ar y farchnad eilaidd os oes angen arian ar rybudd byr dymor.

Bydd yr holl fuddsoddiadau dros 13 mis yn gofyn am gymeradwyaeth Prif Swyddog Ariannol Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu o flaen llaw.

## 5. Dangosyddion Rheoli'r Trysorlys

Mae Dyfed Powys yn mesur ac yn rheoli ei ddatguddiad i risgiau rheoli'r trysorlys gan ddefnyddio'r dangosyddion a ganlyn.

### 5.1 Diogelwch

Mae'r CHTh wedi mabwysiadu mesur gwirfoddol o'i ddatguddiad i risg credyd trwy fonitro sgôr credyd cyfartaledd pwysedig gwerth / *sgôr credyd* ei bortffolio buddsoddi. Cyfrifir hyn trwy gymhwyso sgôr i bob buddsoddiad (AAA=1, AA+=2,

ayyb.) a chymryd y cyfartaledd rhifyddeg, wedi'i bwyso gyda maint pob buddsoddiad. Mae buddsoddiadau heb eu graddio yn derbyn sgôr ar sail eu risg canfyddedig.

| | Targed |
|---|---|
| Statws / sgôr credyd cyfartalog portffolio | A / 6 |

### 5.2 Hylifedd

Mae'r CHTh wedi mabwysiadu mesur gwirfoddol o'i ddatguddiad i risg hylifedd trwy fonitro swm yr arian sydd ar gael i dalu am daliadau annisgwyl o fewn cyfnod treigl o dri mis, heb fenthyca ychwanegol.

| | Targed |
|---|---|
| Cyfanswm yr arian sydd ar gael o fewn 3 mis | £4 miliwn |

### 5.3 Datguddiadau Cyfradd Llog

Bwriad y dangosydd hwn yw rheoli datguddiad y CHTh i risg cyfraddau llog. Mae'r cyfyngiadau uchaf ar ddatguddiadau cyfraddau llog sefydlog ac amrywiol, wedi'u mynegi fel cyfrif y prifswm net a fenthycwyd. (Mae buddsoddiadau yn cyfrif fel benthyca negyddol.):

| | 2016/17 | 2017/18 | 2018/19 |
|---|---|---|---|
| Cyfyngiad uchaf ar ddatguddiad cyfradd llog sefydlog | £40 miliwn | £40 miliwn | £40 miliwn |
| Cyfyngiad uchaf ar ddatguddiad cyfradd llog amrywiol | £20 miliwn | £20 miliwn | £20 miliwn |

Buddsoddiadau a benthyciadau cyfradd sefydlog yw'r rheini ble mae'r gyfradd llog yn cael ei gosod am o leiaf 12 mis, wedi'i mesur o ddechrau'r flwyddyn ariannol neu ddyddiad y trafodyn os yw'n ddiweddarach. Mae'r holl offerynnau eraill yn cael eu dosbarthu yn gyfradd amrywiol.

### 5.4 Strwythur Aeddfedrwydd Benthyca

Mae'r dangosydd hwn wedi'i osod i reoli datguddiad y CHTh i risgiau ailariannu. Y cyfyngiadau uchaf ac isaf ar strwythur aeddfedu benthyciadau cyfradd sefydlog fydd:

| | Uchaf | Isaf |
|---|---|---|
| Llai na 12 mis | 70% | 0% |
| 12 mis ac o fewn 24 mis | 70% | 0% |
| 24 mis ac o fewn 5 mlynedd | 80% | 0% |

| | | |
|---|---|---|
| 5 mlynedd ac o fewn 10 mlynedd | 90% | 0% |
| 10 mlynedd ac uwch | 100% | 0% |

Mae'r cyfnodau amser yn dechrau ar ddiwrnod cyntaf pob blwyddyn ariannol. Dyddiad aeddfedu'r benthyciad yw'r dyddiad cynharaf y gall y benthyciwr hawlio ad-daliad.

Mae'r cyfyngiadau wedi'u gosod mor eang â phosibl i sicrhau nad yw cyfleoedd i ailstrwythuro dyledion yn cael eu colli.

### 5.5 Prifsymiau a Fuddsoddir am Gyfnodau sy'n Hwy na 364 dydd

Diben y dangosydd hwn yw rheoli datguddiad y CHTh i'r risg o fynd i golledion trwy geisio ad-daliad cynnar ar ei fuddsoddiadau. Y cyfyngiadau ar y prifswm hirdymor a fuddsoddir hyd at aeddfedrwydd terfynol y tu hwnt i ddiwedd y cyfnod fydd:

| | 2017/18 | 2018/19 | 2019/20 |
|---|---|---|---|
| Cyfyngiad ar y prifswm a fuddsoddir y tu hwnt i ddiwedd y flwyddyn | £20 miliwn | £20 miliwn | £15 miliwn |

## 6. Eitemau Eraill

Mae nifer o eitemau ychwanegol y mae CIPFA neu LIG yn gofyn i Ddyfed Powys eu cynnwys yn ei Strategaeth Rheoli'r Trysorlys.

### 6.1 Polisi ar Ddefnyddio Deilliadau Ariannol

Yn absenoldeb unrhyw bŵer cyfreithiol i wneud hynny, ni fydd y CHTh yn defnyddio deilliadau ariannol unig (megis cyfnewidiadau, blaenion, dyfodolion ac opsiynau). Gellir defnyddio deilliadau sydd wedi'u mewnosod i fenthyciadau a buddsoddiadau, gan gynnwys cronfeydd cyfun a thrafodion blaenddechrau, a bydd y risgiau y maen nhw'n eu cynnig yn cael eu rheoli yn unol â strategaeth rheoli risg y trysorlys yn gyffredinol.

### 6.2 Hyfforddiant Buddsoddi

Mae Cod Ymarfer CIPFA yn gofyn i'r Prif Swyddog Ariannol sicrhau bod pob aelod sydd â chyfrifoldebau rheoli'r trysorlys, gan gynnwys craffu swyddogaeth rheoli'r trysorlys, yn derbyn yr hyfforddiant priodol sy'n berthnasol i'w hanghenion ac yn llawn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau.

Mae staff sy'n ymgymryd â dyletswyddau rheoli'r trysorlys yn mynychu digwyddiadau hyfforddi perthnasol a ddarperir gan Arlingclose ac yn mynychu cyfarfod strategaeth chwarterol. Mae staff yn mynychu digwyddiadau hyfforddi perthnasol eraill hefyd.

### 6.3 Cynghorwyr Buddsoddi

Mae'r CGTh wedi penodi Arlingclose Limited fel cynghorwyr rheoli'r trysorlys ac yn derbyn cyngor penodol ar faterion buddsoddi, dyledion a chyllid cyfalaf ganddynt.

### 6.4 Buddsoddi Arian a Fenthycir Cyn bod Angen

Fe allai'r CHTh, o bryd i'w gilydd, fenthyca arian cyn bod angen, ble y mae disgwyl i hyn ddarparu y gwerth am arian hirdymor gorau. Gan y bydd symiau a fenthycir yn cael eu buddsoddi hyd nes y byddant yn cael eu gwario, mae'r CHTh yn ymwybodol y bydd yn agored i risg o golled ar y symiau a fenthycir, a'r risg y bydd cyfraddau llog buddsoddi a benthyca yn newid yn y cyfamser. Bydd y risgiau hyn yn cael eu rheoli fel rhan o reolaeth gyffredinol y CHTh ar ei risgiau trysorlys.

Ni fydd cyfanswm y swm a fenthycir yn fwy na'r cyfyngiad benthyca awdurdodedig o £23.1 miliwn. Disgwylir mai'r cyfnod uchaf rhwng benthyca a gwario fydd dwy flynedd, er nid oes gofyn i Ddyfed Powys gysylltu benthyciadau penodol gydag eitemau penodol o wariant.

### 6.5 Goblygiadau Ariannol

Y gyllideb ar gyfer incwm buddsoddi yn 2017/18 yw £0.1 miliwn, ar sail portffolio buddsoddi cyfartalog o £ 28.7 miliwn ar gyfradd llog o 0.35%. Os yw'r union lefelau buddsoddi a chyfraddau llog gwirioneddol yn wahanol i'r rhagolygon hynny, bydd perfformiad yn erbyn cyllideb yn gyfatebol wahanol.

### 6.6 Opsiynau Eraill a Ystyriwyd

Nid yw Canllaw LIC a chod CIPFA yn nodi unrhyw strategaeth rheoli'r trysorlys penodol i awdurdodau lleol eu mabwysiadu. Cred y Prif Swyddog Ariannol bod y strategaeth uchod yn cynrychioli balans priodol rhwng rheoli risg ac effeithiolrwydd costau. Rhestrir rhai strategaethau amgen, gyda'u goblygiadau ariannol a rheoli risg, isod:

| Amgen | Effaith ar incwm a gwariant | Effaith ar reoli risg |
|---|---|---|
| Buddsoddiad mewn ystod gulach o bartïon i gontract a/neu cyfnodau byrrach | Bydd incwm llog yn is | Siawns is o golledion o ddiffygdaliadau yn gysylltiedig â chredyd, ond gallai unrhyw golledion o'r fath fod yn fwy |
| Buddsoddi mewn ystod eang o bartïon i gontract a/neu am gyfnodau hwy | Bydd incwm llog yn uwch | Risg cynyddol o golledion o diffygdaliadau cysylltiedig â chredyd, ond gallai unrhyw golledion o'r fath fod yn llai |
| Benthyca symiau ychwanegol ar gyfraddau llog sefydlog hirdymor | Bydd costau llog debyd yn codi; mae hyn yn annhebygol o gael ei osod yn erbyn gan incwm buddsoddi uwch | Balans buddsoddi uwch yn arwain at effaith uwch mewn achos o ddiffygdaliad; serch hynny gallai costau llog hirdymor fod yn fwy sicr |
| Benthyca benthyciadau byr dymor neu amrywiol yn hytrach na chyfraddau sefydlog hirdymor | Bydd costau llog debyd yn is yn y lle cyntaf | Bydd cynnydd mewn costau llog debyd yn gyffredinol yn cael ei osod yn erbyn gan incwm buddsoddi yn y tymor canolig, ond gallai costau hirdymor fod yn llai sicr |

| | | |
|---|---|---|
| Gostwng lefel benthyca | Mae arbed ar log dyledion yn debyg o fod yn fwy nag incwm buddsoddi coll | Balans buddsoddi gostyngol yn arwain at effaith is mewn achos o ddiffygdaliad; serch hynny gallai costau llog hirdymor fod yn llai sicr |

Atodiad A – Sefyllfa Portffolio Buddsoddiadau a Dyledion

| | 30/09/2016<br>Portffolio Gwirioneddol<br>£miliwn | 31/09/2016<br>Cyfradd Gyfartalog<br>% |
|---|---|---|
| **Benthyca Allanol:**<br>PWLB – Cyfradd Sefydlog | 2.378 | 9.32 |
| **Cyfanswm Dyledion Allanol Gros** | **2.378** | **9.32** |
| | | |
| | 28/02/2017<br>Portffolio Gwirioneddol<br>£miliwn | 28/02/2017<br>Cyfradd Gyfartalog<br>% |
| **Buddsoddiadau:**<br>*Rheoli'n fewnol* | | |
| Buddsoddiadau byr dymor | 21.000 | 0.37 |
| Buddsoddiadau hirdymor | 8.836 | 0.981 |
| **Cyfanswm y Buddsoddiadau** | 29.836 | 0.77 |

Sylwer bod yr holl ddyledion yn rhai hirdymor ac yn dyddio o gyn 1990. Cyfrifir y balans ddwywaith y flwyddyn (30 Medi a 31 Mawrth).

## Atodiad B – Diffiniadau Buddsoddiad

**Statws Credyd:** Gosodir cyfyngiadau buddsoddi trwy gyfeirio at y statws credyd hirdymor isaf a gyhoeddir gan Fitch, Moody's neu Standard & Poor's. Os yw ar gael, mae'r statws credyd sy'n berthnasol i'r buddsoddiad penodol neu ddosbarth buddsoddiad yn cael ei ddefnyddio, fel arall defnyddir statws credyd parti i gontract. Serch hynny, nid yw penderfyniadau buddsoddi byth yn cael eu gwneud ar sail statws credyd, a bydd yr holl ffactorau perthnasol eraill gan gynnwys cyngor allanol yn cael eu hystyried.

**Banciau Ansicredig:** Cyfrifon, adneuon, tystysgrifau adnau ac uwch fondiau ansicredig gyda banciau a chymdeithasau adeiladu, ac eithrio banciau datblygu amlochrog. Mae'r buddsoddiadau hyn yn amodol ar risg o golli credyd trwy gael eu hachub (*bail-in*) pe bai'r rheolydd yn pennu bod y banc yn methu neu'n debygol o fethu.

**Banciau Sicredig:** Bondiau a gwmpesir, trefniadau prynu cildro a threfniadau sicrwydd cyfochrog fel gwarant eraill gyda banciau a chymdeithasau adeiladu. Mae'r buddsoddiadau hyn yn cael eu sicrhau ar asedau banc, sy'n cyfyngu ar y colledion posibl mewn digwyddiad annhebygol o fethdaliad, ac mae'n golygu eu bod wedi'u heithrio rhag cael eu hachub (*bail-in*). Ble na cheir statws credyd penodol i fuddsoddiad, ond mae gan y sicrwydd cyfochrog y mae'r buddsoddiad wedi'i sicrhau arno statws credyd, bydd yr uchaf o'r statws credyd sicrwydd cyfochrog a statws credyd parti i gontract yn cael ei ddefnyddio i bennu'r cyfyngiadau arian ac amser. Ni fydd y buddsoddiadau cyfun sicredig ac ansicredig mewn unrhyw un banc yn rhagori ar y cyfyngiad arian ar gyfer buddsoddiadau sicredig.

**Llywodraeth:** Benthyciadau, bondiau a biliau a gyhoeddir neu a warantir gan lywodraethau cenedlaethol, awdurdodau rhanbarthol a lleol a banciau datblygu amlochrog. Nid yw'r buddsoddiadau hyn yn amodol ar gael eu hachub (*bail-in*), a cheir risg di-nod o fethdaliad. Gallai buddsoddiadau gyda Llywodraeth Ganolog y DU gael eu gwneud mewn symiau anghyfyngedig am hyd at 50 o flynyddoedd.

**Corfforaethau:** Benthyciadau, bondiau a phapur masnachol a gyhoeddir gan gwmnïau ac eithrio banciau a darparwyr cofrestredig. Nid yw'r buddsoddiadau hyn yn amodol ar gael eu hachub (*bail-in*), ond yn agored i risg o'r cwmni yn methdalu. Dim ond fel rhan o gronfa amrywiol y bydd benthyciadau i gwmnïau heb gyfradd yn cael ei wneud er mwyn lledaenu'r risg yn eang.

**Darparwyr Cofrestredig:** Benthyciadau a bondiau a gyhoeddir gan, ac a warantir neu a sicrheir ar asedau Darparwyr Cofrestredig Tai Cymdeithasol, a alwyd yn flaenorol yn Gymdeithasau Tai. Mae'r cyrff hyn yn cael eu rheoleiddio yn dynn gan yr Asiantaeth Cartrefi a Chymunedau ac, fel darparwyr gwasanaethau cyhoeddus, maen nhw'n cadw'r debygoliaeth o dderbyn cefnogaeth llywodraeth os oes angen.

**Cytundebau Prynu Cildro (Repo):** Mae cytundeb adbryniad yn drafodyn ariannol ble y mae un endid (fel arfer banc) yn gwerthu buddsoddiadau (bondiau) i endid arall (y buddsoddwr) ar un dyddiad ac ar yr un pryd yn cytuno i'w hadbrynu ar bris sefydlog ar ddyddiad diweddarach. Mae repo yn cynnwys dau drafodyn cysylltiedig

ond ar wahân - gwerthu bondiau gan y banc am arian, ac yn ddiweddarach adbrynu'r bondiau am swm mwy o arian.

**Cronfeydd Cyfun:** Cyfranddaliadau mewn cyfryngau buddsoddi amrywiol sy'n cynnwys unrhyw un o'r mathau buddsoddi uchod, ynghyd â chyfranddaliadau ecwiti ac eiddo. Mae gan y cronfeydd hyn fantais o ddarparu amrywiaeth eang o risgiau buddsoddi, ynghyd â gwasanaethau rheolwr cronfa proffesiynol am ffi. Bydd Cronfeydd Marchnadoedd Ariannol byr dymor sy'n cynnig hylifedd yr un diwrnod ac anwadolrwydd isel iawn neu ddim o gwbl yn cael eu defnyddio fel dewis amgen i gyfrifon banc mynediad di-oed.

## Atodiad C – Arferion Rheoli'r Trysorlys (TMP)

### TMP1 Rheoli Risg

Bydd Prif Swyddog Ariannol Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu yn cynllunio, yn gweithredu ac yn monitro'r holl drefniadau ar gyfer adnabod, rheoli a chadw trefn ar risg rheoli'r trysorlys, yn adrodd o leiaf yn flynyddol ar eu digonolrwydd/addasrwydd, a bydd yn adrodd, fel mater o frys, amgylchiadau unrhyw anhawster gwirioneddol neu debygol wrth gyflawni amcanion Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu o ran hyn, y cyfan yn unol â'r gweithdrefnau a amlinellir yn TMP6 *Gofynion adrodd a threfniadau gwybodaeth reoli.*

Yng nghyswllt pob un o'r risgiau a ganlyn, mae'r trefniadau sy'n ceisio sicrhau cydymffurfiad â'r amcanion hyn wedi'u hamlinellu isod:-

**Risg Credyd a Pharti i Gontract**

**Diffiniad**

Risg o fethiant gan bartïon i gontract i fodloni ei rwymedigaethau cytundebol i'r sefydliad o dan ariannu buddsoddiad, benthyciad, cyfalaf, prosiect neu bartneriaeth, o ganlyniad i deilyngdod credyd gostyngol y parti i gontract, a'r effaith niweidiol canlyniadol ar adnoddau cyfalaf neu gyfredol (refeniw) y sefydliad.

**Cam Gweithredu**

"Mae Dyfed-Powys yn ystyried mai amcan allweddol ar ei weithgareddau rheoli trysorlys yw diogelwch y prif symiau y mae'n eu buddsoddi. Gan hynny, bydd yn sicrhau bod ei restrau a chyfyngiadau parti i gontract yn adlewyrchu agwedd ddarbodus tuag at sefydliadau y gallai arian gael eu hadneuo ynddynt, a bydd yn cyfyngu ar ei weithgareddau buddsoddi i'r offerynnau, dulliau a thechnegau y cyfeirir atynt yn TMP4 *Offerynnau, dulliau a thechnegau cymeradwy.* Mae hefyd yn adnabod yr angen i gael, a bydd gan hynny yn cynnal, polisi parti i gontract ffurfiol yng nghyswllt y sefydliadau hynny ble y gall fenthyca, neu y gall fynd i drefniadau ariannu eraill gyda hwy."

Ceir manylion partïon i gontract o fewn y Strategaeth a Pholisi Rheoli Trysorlys.

**Risg Hylifedd**

**Diffiniad**

Risg na fydd arian ar gael pan fydd ei angen, bod rheolaeth aneffeithiol ar hylifedd yn creu costau annisgwyl ychwanegol a chan hynny bydd amcanion busnes / gwasanaeth y sefydliad yn cael eu cyfaddawdu.

**Cam Gweithredu**

Swyddogaeth y Prif Swyddog Ariannol (Prif Gwnstabl) trwy staff rheoli'r trysorlys a gyflogir gan y Prif Gwnstabl fydd sicrhau bod ganddo adnoddau arian digonol er nid gormodol, trefniadau benthyca, cyfleusterau gorddrafft neu wrth gefn i alluogi iddo fod â lefelau arian ar gael iddo bob amser sy'n angenrheidiol er mwyn cyflawni'i amcanion busnes / gwasanaeth.

Byddant yn sicrhau bob amser bod arian dros ben ar gael y gellir galw arno (£2 miliwn) trwy ei fuddsoddiadau mewn cyfrifon arian ar alw, a fyddai ar gael unrhyw bryd.

Mae prosesau rhagweld llif arian wythnosol, misol a blynyddol wedi'u sefydlu yn unol â Rheoliadau Ariannol a Gweithdrefnau Rheoli Ariannol.

**Risg Cyfraddau Llog**

**Diffiniad**

Mae'r risg y bydd amrywiadau yn lefelau cyfraddau llog yn creu baich annisgwyl neu nas rhagwelwyd ar gyllid y sefydliad, ac y mae'r sefydliad wedi methu amddiffyn ei hun yn ddigonol yn eu herbyn.

**Cam Gweithredu**

Bydd Dyfed-Powys yn rheoli ei ddatguddiad i amrywiadau mewn cyfraddau llog gyda'r bwriad o ddal ei gostau llog, neu sicrhau ei refeniwiau llog, yn unol â'r symiau a ddarperir yn ei drefniadau cyllidebol fel y'u diwygiwyd yn unol â TMP6 *Gofynion adrodd a threfniadau gwybodaeth reoli.*

Bydd yn cyflawni hyn trwy ddefnydd darbodus ar ei offerynnau, dulliau a thechnegau ariannu a buddsoddi, yn bennaf i greu sefydlogrwydd a sicrwydd costau a refeniwiau, ond ar yr un pryd yn cadw gradd ddigonol o hyblygrwydd i fanteisio ar unrhyw newidiadau annisgwyl, manteisiol posibl yn lefel neu strwythur cyfraddau llog. Dylai hyn fod yn amodol ar ystyriaeth ac, os oes angen, cymeradwyaeth unrhyw bolisi neu oblygiadau cyllidebol.

Dim ond o ffynonellau cymeradwy y bydd y CHTh yn ymgymryd â benthyciadau megis y PWLB, sefydliadau megis Banc Buddsoddi Ewrop a chan fanciau masnachol sydd ar restr o sefydliadau awdurdodedig CHTh, a gan hynny yn isafu ar risg gyfreithiol a rheoleiddio. Bydd pob buddsoddiad dros 13 mis angen cymeradwyaeth flaenorol gan Brif Swyddog Ariannol y CHTh.

**Risg Cyfraddau Cyfnewid**

**Diffiniad**

Risg y bydd amrywiadau mewn cyfraddau cyfnewid tramor yn creu baich annisgwyl neu nas rhagwelir ar gyllid sefydliad, ac mae'r sefydliad wedi methu amddiffyn ei hun yn ddigonol yn eu herbyn.

**Cam Gweithredu**

Ar hyn o bryd dim ond mewn cynnyrch sterling y mae Dyfed Powys yn buddsoddi, gan hynny nid oes risg cyfraddau cyfnewid.

**Risg Ailariannu**

**Diffiniad**

Y risg nad oes modd ailariannu arian benthyciadau, cyfalaf, prosiect neu bartneriaeth ar delerau sy'n adlewyrchu'r darpariaethau a wnaed gan y sefydliad ar gyfer yr ailariannu hynny, yn gyfalaf ac yn gyfredol (refeniw) a / neu fod y telerau yn anghyson â'r prif amodau marchnad ar y pryd.

**Cam Gweithredu**

Bydd Dyfed-Powys yn sicrhau bod ei fenthyciadau, ariannu preifat a threfniadau partneriaeth yn cael eu negydu, eu strwythuro a'u dogfennu, a bod proffil aeddfedu'r arian a godir felly yn cael eu rheoli, gyda'r bwriad o sicrhau telerau cynnig ar gyfer adnewyddu neu ailariannu os oes angen, sydd yn gystadleuol neu mor ffafriol i'r CHTh ag y gellir ei gyflawni yn rhesymol yng ngoleuni prif amodau marchnad ar y pryd.

Bydd yn ymroi i reoli ei berthnasau gyda'i bartïon i gontract yn y trafodion hyn mewn modd sy'n sicrhau ei amcan, a bydd yn osgoi gorddibyniaeth ar unrhyw un ffynhonnell ariannu os gallai hyn beryglu cyflawni'r uchod."

**Risg Gyfreithiol a Rheoleiddio**

**Diffiniad**

Mae risg y bydd y sefydliad ei hun, neu sefydliad y mae yn delio â'i weithgareddau rheoli'r trysorlys, yn methu gweithredu yn unol â'i bwerau cyfreithiol neu ofynion rheoleiddio, a bod y sefydliad yn dioddef colledion gan hynny.

**Cam Gweithredu**

Bydd Dyfed-Powys yn sicrhau bod ei holl weithgareddau rheoli'r trysorlys yn cydymffurfio â'i bwerau statudol a gofynion rheoleiddio. Bydd yn dangos cydymffurfiad o'r fath, os oes gofyn iddo wneud hynny, i bob grŵp y mae'n delio â gweithgareddau o'r fath â hwy. Wrth fframio ei bolisi credyd a pharti i gontract o dan *TMP1 rheoli risg credyd a pharti i gontract,* bydd yn sicrhau bod tystiolaeth o bwerau partïon i gontract, awdurdod a chydymffurfiad yng nghyswllt y trafodion y gallent ddod i gysylltiad â Chomisiynydd yr Heddlu a Throseddu, yn enwedig o ran dyletswydd gofal a'r ffioedd a godir.

Mae Dyfed Powys yn cydnabod y gallai newidiadau deddfwriaethol neu reoleiddio yn y dyfodol effeithio ar ei weithgareddau rheoli'r trysorlys ac, hyd y gellir yn rhesymol, bydd yn ceisio isafu ar y risg y bydd y rhain yn effeithio'n wrthwynebus ar y CHTh.

**Cronfa wrth Gefn Twyll, Gwallau a Llygredd**

**Diffiniad**

Mae'r risg bod sefydliad yn methu adnabod yr amgylchiadau ble y gallai fod yn agored i risg o golled trwy dwyll, gwallau, llygredd neu bosibilrwydd arall yn ei ddeiliaid rheoli'r trysorlys, ac yn methu defnyddio systemau a gweithdrefnau addas a chynnal trefniadau rheoli wrth gefn effeithiol i'r perwyl hwn. Mae'n cynnwys y maes risg y cyfeirir ato'n gyffredin fel risg gweithredol.

**Cam Gweithredu**

Bydd Dyfed-Powys yn sicrhau ei fod wedi adnabod yr amgylchiadau a allai ei ddatguddio i risg o golled trwy dwyll, gwallau, llygredd neu bosibilrwydd arall yn ei ddeiliaid rheoli'r trysorlys. Gan hynny, bydd yn defnyddio systemau a gweithdrefnau addas, a bydd yn cynnal trefniadau rheoli wrth gefn effeithiol i'r perwyl hwn. Bydd Archwilio Mewnol yn adolygu'n rheolaidd swyddogaeth Rheoli'r Trysorlys ac yn adrodd wrth y Cydbwyllgor Archwilio.

Mae strwythur adrodd clir, wedi'i diffinio'n dda ar gyfer twyll ayyb wedi'i sefydlu mewn achos o fethiant systemau. Mae'r polisi yswiriant yn cynnwys sicrwydd ar gyfer twyll, gwallau a llygredd. Mae hyn wedi'i ddogfennu o fewn y Polisi Gwrth-dwyll a Llygredd ac wedi'i gynnwys o fewn Gweithdrefn Rheoli Ariannol 4.7 "Delio â Thwyll a Ddrwgdybir."

**Risg Marchnad**

**Diffiniad**

Y risg trwy amrywiadau gwrthwynebus yng ngwerth y prif symiau y mae sefydliad yn eu benthyca ac yn eu buddsoddi, nodir bod polisïau ac amcanion rheoli'r trysorlys yn cael eu cyfaddawdu, ac y mae wedi methu ag amddiffyn ei hun yn ddigonol yn erbyn yr effeithiau hyn.

**Cam Gweithredu**

Bydd Dyfed-Powys yn ceisio sicrhau na fydd ei bolisïau ac amcanion rheoli'r trysorlys penodol yn cael eu cyfaddawdu trwy amrywiadau marchnad gwrthwynebus yng ngwerth y prif symiau y mae'n eu buddsoddi, a chan hynny bydd yn ceisio amddiffyn ei hun rhag effeithiau amrywiadau o'r fath.

Dim ond sefydliadau sydd wedi'u cynnwys yn y rhestr fenthyca partïon i gontract diweddaraf a gymeradwywyd gan Arlingclose y bydd yn buddsoddi ynddynt.

## TMP2 Rheoli Perfformiad

Mae Dyfed Powys yn ymrwymedig i sicrhau gwerth am arian yn ei weithgareddau rheoli'r trysorlys ac i ddefnyddio methodoleg perfformiad i gefnogi'r nod hwnnw, o fewn y fframwaith a amlinellir yn ei ddatganiad polisi rheoli'r trysorlys.

Gan hynny, bydd swyddogaeth rheoli'r trysorlys yn amodol ar ddadansoddiad parhaus o'r gwerth y mae'n ei ychwanegu i gefnogi amcanion busnes neu wasanaeth penodol y sefydliad. Bydd yn amodol ar archwiliad rheolaidd o ddulliau amgen o gyflenwi gwasanaeth, o argaeledd mentrau cyllidol neu grant neu gymhorthdal eraill, a'r cwmpas ar gyfer gwelliannau posibl eraill. Bydd perfformiad y swyddogaeth rheoli'r trysorlys yn cael ei fesur gan ddefnyddio'r meini prawf a amlinellir isod:-

Bydd y mesurau / meincnodau perfformiad ar gyfer rheoli'r trysorlys yn cynnwys yr isod:-

| | Mesur Perfformiad |
|---|---|
| 1 | Cyflawni'r incwm buddsoddi sydd wedi'i gyllidebu |
| 2 | Sicrhau sicrwydd balans arian am 31 diwrnod |
| 3 | Sicrhau mai dim ond gyda sefydliadau sy'n cydymffurfio â Strategaeth Rheoli'r Trysorlys flynyddol y mae buddsoddiadau yn cael eu gosod. |
| 4 | Sicrhau cadw at gyfyngiadau partïon i gontract cymeradwy (cyfeirir atynt yn TMPau 1/ 5) |
| 5 | Lefelau disgwyliedig o Fuddsoddiadau'r mis o'u cymharu â lefel gwirioneddol y buddsoddiad |
| 6 | Cyfradd adennill gyfartalog o fuddsoddiadau'r mis o'i gymharu â chyfradd darged |

## TMP3 Penderfyniadau a Dadansoddiad

Bydd Dyfed Powys yn cynnal cofnodion llawn o'i benderfyniadau rheoli'r trysorlys ac o'r prosesau a'r arferion a gymhwyswyd wrth ddod i'r penderfyniadau hynny, at ddibenion dysgu o'r gorffennol ac ar gyfer dangos bod camau rhesymol wedi'u cymryd i sicrhau bod yr holl faterion sy'n berthnasol i'r penderfyniadau hynny wedi'u hystyried ar y pryd.

Ni fydd penderfyniadau yn ymwneud ag ariannu, benthyca, rhoi benthyg a thechnegau ac offerynnau newydd yn cael eu gwneud oni bai eu bod yn cydymffurfio â Pholisi a Strategaeth Rheoli'r Trysorlys. Bydd yr holl benderfyniadau yn agored i graffu annibynnol.

**TMP4 Offerynnau, Dulliau a Thechnegau Cymeradwy**

Bydd Dyfed Powys yn ymgymryd â'i weithgareddau rheoli'r trysorlys trwy ddefnyddio dim ond yr offerynnau, y dulliau a'r technegau hynny a nodir yn y Rheoliadau Ariannol a Gweithdrefnau Rheoli Ariannol ac o fewn y cyfyngiadau a'r paramedrau a ddiffinnir yn TMP 1 Rheoli Risg.

Mae adran 7.8F Fframwaith Llywodraethu Corfforaethol yn rhoi cyfarwyddyd ar drefniadau Rheoli'r Trysorlys a Bancio ac mae Gweithdrefn Rheoli Ariannol 2.1 *Trefniadau Rheoli'r Trysorlys a Bancio* yn nodi offerynnau, dulliau a thechnegau cymeradwy.

**TMP5 Trefniant, Eglurder a Gwahaniad Cyfrifoldebau a Threfniadau Delio**

Mae Dyfed-Powys yn teimlo ei bod hi'n hanfodol, at ddibenion rheoli a monitro effeithiol ar ei weithgareddau rheoli'r trysorlys, ar gyfer gostwng risg o dwyll neu wall, ac er mwyn sicrhau'r perfformiad gorau, bod y gweithgareddau hyn yn cael eu strwythuro a'u rheoli mewn modd cwbl integredig, a bod, bob amser, eglurder o gyfrifoldebau rheoli'r trysorlys.

Mae'r egwyddor y seilir hyn arni yn wahaniaeth clir rhwng y rheini sydd â'r cyfrifoldeb o osod polisïau rheoli'r trysorlys a'r rheini sydd â chyfrifoldeb dros weithredu a rheoli'r polisïau hyn, yn enwedig o ran gweithredu a throsglwyddo arian, cofnodi a gweinyddu penderfyniadau rheoli'r trysorlys, ac archwilio ac adolygu swyddogaeth rheoli'r trysorlys.

Os a phryd y bydd Dyfed Powys yn bwriadu, o ganlyniad i ddiffyg adnoddau neu amgylchiadau eraill, ymadael o'r egwyddorion hyn, bydd Prif Swyddog Ariannol y Prif Gwnstabl yn sicrhau bod y rhesymau yn cael eu hadrodd yn gywir wrth Brif Swyddog Ariannol CHTh yn unol â TMP6 *Gofynion Adrodd a Threfniadau Gwybodaeth Reoli,* a'r goblygiadau wedi'u hystyried a'u gwerthuso yn gywir.

Bydd Prif Swyddog Ariannol y Prif Gwnstabl yn sicrhau bod datganiadau ysgrifenedig clir o'r cyfrifoldebau ar gyfer pob swydd sy'n gysylltiedig â rheoli'r trysorlys, a'r trefniadau ar gyfer cyflenwi mewn absenoldeb. Bydd Prif Swyddog Ariannol y Prif Gwnstabl hefyd yn sicrhau bob amser bod y rheini sy'n gysylltiedig â rheoli'r trysorlys yn dilyn y polisïau a'r gweithdrefnau a amlinellir ac yn adrodd ar unrhyw amrywiad o'r rhain wrth Brif Swyddog Ariannol CHTh.

Bydd Prif Swyddog Ariannol y Prif Gwnstabl yn sicrhau bod dogfennau priodol ar gyfer pob deliant a thrafodyn a bod gweithdrefnau yn bodoli ar gyfer trawsyrru arian yn effeithiol a darparu tystiolaeth o hyn yn ôl yr angen i Brif Swyddog Ariannol CHTh.

**TMP6 Gofynion Adrodd a Threfniadau Gwybodaeth Reoli**

Bydd Dyfed-Powys yn sicrhau bod adroddiadau rheolaidd yn cael eu paratoi a'u hystyried ar weithredu ei bolisïau rheoli'r trysorlys; ar effeithiau penderfyniadau a wneir a thrafodion a gyflawnir i geisio'r polisïau hynny; ar oblygiadau newidiadau, yn benodol cyllidebol, yn deillio o ffactorau rheoleiddio, economaidd, marchnad neu eraill sy'n effeithio ar ei weithgareddau rheoli'r trysorlys; ac ar berfformiad y swyddogaeth rheoli'r trysorlys.

Awgrymir y dylai'r broses adrodd a ganlyn gael ei chyflwyno gan Brif Swyddog Ariannol CHTh:-

Gofynion adrodd blynyddol cyn dechrau'r flwyddyn:

- Adolygu datganiad polisi a strategaeth Rheoli'r Trysorlys,
- Adolygu Arferion Rheoli'r Trysorlys,
- Dangosyddion Darbodus.

Gofynion adrodd canol blwyddyn:

- Gweithgareddau Rheoli'r Trysorlys yr ymgymerwyd â hwy,
- Amrywiadau (os o gwbl) o'r polisïau / arferion cytûn,
- Adroddiad perfformiad,
- Perfformiad yn erbyn Rheoli'r Trysorlys a Dangosyddion Darbodus.

Gofynion adrodd blynyddol ar ôl diwedd blwyddyn:

- Perfformiad Swyddogaeth Rheoli'r Trysorlys,
- Adroddiad ar oblygiadau risg y penderfyniadau a wnaed a'r trafodion a gyflawnwyd,
- Adroddiad ar unrhyw amgylchiadau o ddiffyg cydymffurfiad â Datganiad Heddlu Rheoli'r Trysorlys a TMPau.

**TMP7 Trefniadau Cyllidebu, Cyfrifyddu ac Archwilio**

Bydd Prif Swyddog Ariannol CHTh yn paratoi a bydd y CHTh yn cymeradwyo ac, os oes angen o bryd i'w gilydd, yn diwygio'r gyllideb flynyddol ar gyfer y swyddogaeth Rheoli'r Trysorlys, ynghyd â'r incwm cysylltiedig. Y materion i'w cynnwys yn y gyllideb fydd isafswm y rhai sy'n ofynnol trwy statud neu reoliad, ynghyd â gwybodaeth o'r fath a fydd yn dangos cydymffurfiad gyda TMP1 *Rheoli Risg*, TMP2 *Mesur Perfformiad* a TMP4 *Offerynnau, Dulliau a Thechnegau Cymeradwy*. Bydd y Prif Swyddog Ariannol yn defnyddio rheolaethau effeithiol dros ei gyllideb a bydd yn adrodd ar ac yn argymell unrhyw newidiadau sy'n ofynnol yn unol â TMP6 *Gofynion Adrodd a Threfniadau Gwybodaeth Reoli.*

Bydd Dyfed-Powys yn rhoi cyfrif am ei weithgareddau rheoli'r trysorlys, am benderfyniadau a enwir a thrafodion a gyflawnir, yn unol ag arferion a safonau cyfrifyddu priodol, a gyda gofynion statudol a rheoleiddio sydd mewn grym ar y pryd ac yn benodol y Cod Ymarfer CIPFA a Nodiadau Cyfarwyddyd Trawsadrannol ar gyfer Rheoli'r Trysorlys o fewn Gwasanaethau Cyhoeddus a gyhoeddwyd yn 2011. Bydd y Prif Swyddog Ariannol yn gweithredu yn unol â datganiad polisi'r CHTh a TMP a *CIPFA: Safon Arfer Broffesiynol ar Reoli'r Trysorlys.*

Bydd y CHTh yn sicrhau bod gan ei archwilwyr, a'r rheini sydd â chyfrifoldeb adolygu rheoleiddio, fynediad at yr holl wybodaeth a phapurau sy'n cefnogi gweithgareddau'r swyddogaeth rheoli'r trysorlys fel sy'n angenrheidiol ar gyfer cyflawni eu rolau yn gywir, a bod gwybodaeth a phapurau o'r fath yn dangos cydymffurfiad â pholisïau ac arferion cymeradwy mewnol ac allanol.

Bydd gweithdrefnau a phrosesau Rheoli'r Trysorlys yn cael eu harchwilio yn unol â strategaeth archwilio ar sail risg archwilio mewnol.

Bydd archwilwyr fel rhan o'u cyfrifoldebau wrth archwilio'r Datganiad o Gyfrifon, yn casglu gwiriad annibynnol gan bartïon i gontract buddsoddiadau a gedwir gan y CHTh.

**TMP8 Arian a Rheoli Llif Arian**

Oni bai bod gofynion statudol neu reoleiddio yn mynnu fel arall, bydd yr holl arian sydd gan Ddyfed Powys o dan reolaeth y CHTh, a bydd yn cael ei gydgrynhoi at ddibenion llif arian a rheoli buddsoddiadau. Bydd rhagamcaniadau llif arian yn cael eu paratoi yn rheolaidd, a bydd Prif Swyddog Ariannol y CHTh a Phrif Swyddog Ariannol y Prif Gwnstabl yn sicrhau bod y rhain yn ddigonol at ddibenion monitro cydymffurfiad gyda TMP1 *Rheoli Risg Hylifedd.*

**TMP9 Gwyngalchu Arian**

Mae Dyfed Powys yn effro i'r posibilrwydd y gallai ddod yn amodol ar ymgais i'w gynnwys mewn trafodyn sy'n cynnwys gwyngalchu arian. Gan hynny, bydd yn cynnal gweithdrefnau ar gyfer gwirio a chofnodi hunaniaeth partïon i gontract ac yn adrodd ar unrhyw amheuon, a bydd yn sicrhau bod staff sy'n gysylltiedig â hyn yn cael eu hyfforddi'n llawn.

Dim ond partïon i gontract sydd wedi'u cymeradwyo gan ymgynghorwyr Rheoli'r Trysorlys fydd yn cael eu defnyddio. Cytunir ar delerau ac amodau rhwng y parti i gontract a'r CHTh cyn trosglwyddo arian.

Mae'r Ddeddf Enillion Troseddau 2020 (POCA) a'r Rheoliadau Gwyngalchu Arian 2007 hefyd wedi ymestyn ar gyfrifoldebau archwilwyr Swyddfa Archwilio Cymru. Mae gofyn i'r Archwilydd Cyffredinol a'i staff a chontractwyr adrodd wrth yr Awdurdod Troseddau Difrifol a Threfnedig os ydynt yn amau, o ganlyniad i wybodaeth sydd wedi'i chasglu yn ystod eu gwaith, y gallai gweithredoedd troseddol fod wedi digwydd sy'n cynnwys elw ariannol.

Os oes unrhyw staff sy'n gysylltiedig â Rheoli'r Trysorlys yn amau gwyngalchu arian yna dylid dwyn hyn i sylw Prif Swyddog Ariannol y CHTh a Phrif Swyddog Ariannol y Prif Gwnstabl.

**TMP10 Hyfforddiant a Chymwysterau**

Mae Dyfed Powys yn adnabod pwysigrwydd sicrhau bod yr holl staff sy'n gysylltiedig â swyddogaeth rheoli'r trysorlys wedi'u cyfarparu'n llawn i ymgymryd â'r dyletswyddau a'r cyfrifoldebau sydd wedi'u neilltuo iddynt. Gan hynny bydd y CHTh yn ceisio penodi unigolion sy'n alluog ac yn brofiadol a bydd yn darparu hyfforddiant i staff i'w galluogi i gaffael a chynnal lefel briodol o arbenigedd, gwybodaeth a sgiliau. Bydd Prif Swyddog Ariannol y CHTh yn argymell ac yn gweithredu'r trefniadau angenrheidiol.

Bydd Prif Swyddog Ariannol y CHTh yn sicrhau bod gan yr holl staff sydd â chyfrifoldebau rheoli'r trysorlys, gan gynnwys y rheini sy'n gyfrifol am graffu, fynediad at hyfforddiant sy'n berthnasol i'w anghenion a'r cyfrifoldebau hynny.

Mae'r rheini sydd â chyfrifoldeb llywodraethu yn adnabod eu cyfrifoldeb unigol i sicrhau bod ganddynt y sgiliau angenrheidiol i ymgymryd â'u rôl yn effeithiol.

Mae staff sy'n ymgymryd â dyletswyddau rheoli'r trysorlys yn mynychu digwyddiadau hyfforddi perthnasol a ddarperir gan Arlingclose ac yn mynychu cyfarfod strategaeth chwarterol. Bydd staff hefyd yn mynychu digwyddiadau hyfforddi perthnasol a gynhelir gan CIPFA.

Anfonir negeseuon e-bost bwletin wythnosol gan Arlingclose sy'n cynnig cyngor ar unrhyw ddatblygiadau economaidd a diwygiadau a awgrymir i gyfyngiadau partïon i gontract.

**TMP11 Defnyddio Darparwyr Gwasanaeth Allanol**

Mae Dyfed-Powys yn adnabod bod cyfrifoldeb dros benderfyniadau rheoli'r trysorlys yn parhau gyda'r CHTh bob amser. Mae Dyfed-Powys yn adnabod gwerth posibl cyflogi darparwyr allanol ar wasanaethau rheoli'r trysorlys, er mwyn cael mynediad at sgiliau ac adnoddau arbenigol. Pan fydd yn defnyddio darparwyr gwasanaeth o'r fath, bydd yn sicrhau ei fod yn gwneud hynny am resymau a fydd wedi'u cyflwyno i werthusiad llawn o'r costau a'r buddion. Bydd hefyd yn sicrhau bod telerau eu penodi a dulliau asesu eu gwerth yn cael eu cytuno a'u dogfennu yn gywir, ac yn amodol ar adolygiad rheolaidd. A bydd yn sicrhau, ble y mae'n ymarferol ac yn angenrheidiol, bod rhychwant o ddarparwyr gwasanaeth yn cael eu defnyddio, er mwyn osgoi gorddibyniaeth ar un neu nifer fechan o gwmnïau. Os yw gwasanaethau yn amodol ar drefniadau tendro neu ail-dendro ffurfiol, cedwir at ofynion deddfwriaethol bob amser. Prif Swyddog Ariannol y CHTh sy'n gyfrifol am fonitro trefniadau o'r fath.

Mae gan Ddyfed Powys gytundeb gydag Arlingclose ar gyfer darparu cyngor/cymorth fel a ganlyn:

- Cyngor strategol
- Cyngor cyllid cyfalaf
- Polisi a Strategaeth Rheoli'r Trysorlys
- Rhagweld Cyfraddau Llog a Chyngor Economaidd
- Cyngor Polisi Buddsoddi
- Cyngor ar Ddyledion
- Cymorth Partïon i Gontract
- Seminarau a hyfforddiant
- Cyfarfodydd cleient a gwefan.

Roedd y contract cychwynnol am y cyfnod rhwng 1 Gorffennaf a 30 Mehefin 2010. Mae'r trefniant hwn yn amodol ar ymarfer tendro erbyn hyn.

**TMP12 Llywodraethu Corfforaethol**

Mae Dyfed-Powys wedi mabwysiadu a gweithredu argymhellion allweddol Cod Ymarfer CIPFA. Ystyrir bod hyn yn hanfodol i gyflawni llywodraethu corfforaethol cywir o fewn rheoli'r trysorlys, a bydd Prif Swyddog Ariannol CHTh a Phrif Swyddog Ariannol y Prif Gwnstabl yn monitro ac, os yw'n angenrheidiol, adrodd ar effeithlonrwydd y trefniadau hyn.

Mae'r Cod yn argymell bod sefydliadau gwasanaeth cyhoeddus yn datgan eu hymrwymiad i gynnwys egwyddorion llywodraethu corfforaethol yn eu gweithgareddau Rheoli'r Trysorlys, yn enwedig didwylledd a thryloywder.

Mae Dyfed Powys yn ymrwymedig i gynnwys llywodraethu corfforaethol cywir drwyddi draw ei fusnesau a gwasanaethau, ac i sefydlu egwyddorion ac arferion y gellir eu defnyddio i gyflawni hyn. Gan hynny, bydd ei swyddogaeth rheoli'r trysorlys yn cael ei chynnal gyda didwylledd a thryloywder, gonestrwydd, cyfanrwydd ac atebolrwydd a adlewyrchir yn Fframwaith Llywodraethu Corfforaethol a Gweithdrefnau Rheoli Ariannol Dyfed Powys.

Bydd polisïau ac arferion Rheoli'r Trysorlys y sefydliad yn cael eu cyhoeddi ar y rhyngrwyd.

Mae gan Brif Swyddog Ariannol y CHTh oruchafiaeth dros swyddogaethau Rheoli'r Trysorlys a bydd yn sicrhau bod gwahaniaeth digonol ar ddyletswyddau yn bodoli rhwng staff sydd â chyfrifoldeb dros ymgymryd â Swyddogaethau Rheoli'r Trysorlys.

## Atodiad D - Dangosyddion Darbodus a Datganiad Darpariaeth Isafswm Refeniw 2017/18

Mae'r Ddeddf Llywodraeth Leol 2003 yn gofyn i'r CHTh ystyried *Cod Darbodus ar gyfer Cyllid Cyfalaf yn Awdurdodau Lleol* (y Cod Darbodus) Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth wrth bennu faint o arian y gall fforddio ei fenthyca. Amcanion y Cod Darbodus yw sicrhau, o fewn fframwaith clir, bod cynlluniau buddsoddi cyfalaf awdurdodau lleol yn fforddiadwy, yn ddarbodus ac yn gynaliadwy, a bod penderfyniadau rheoli'r trysorlys yn cael eu gwneud yn unol ag arfer proffesiynol da. Er mwyn dangos bod y CHTh wedi bodloni'r amcanion hyn, mae'r Cod Darbodus yn amlinellu'r dangosyddion a ganlyn y mae'n rhaid eu gosod a'u monitro bob blwyddyn.

1. **Amcangyfrifon Gwariant Cyfalaf:**

Gellir crynhoi gwariant cyfalaf ac ariannu arfaethedig y CHTh fel a ganlyn:

| Gwariant Cyfalaf ac Ariannu | 2016/17 Diwygiedig £mil | 2017/18 Amcan £mil | 2018/19 Amcan £mil | 2019/20 Amcan £mil | 2020/21 Amcan £mil |
|---|---|---|---|---|---|
| Prosiectau Ystadau | 1,854 | 5,790 | 5,193 | 2,876 | 575 |
| Cerbydau | 1,264 | 972 | 1,044 | 1,037 | 1,170 |
| Cynlluniau TGCh | 2,447 | 2,459 | 3,462 | 2,781 | 2,448 |
| **Cyfanswm Gwariant** | **5,565** | **9,221** | **9,699** | **6,694** | **4,193** |
| Derbynebau Cyfalaf | 114 | 1,568 | 523 | 200 | 0 |
| Grantiau Llywodraeth | 500 | 318 | 318 | 318 | 318 |
| Cronfeydd wrth Gefn | 4,551 | 7,035 | 5,059 | 2,001 | 0 |
| Cyfraniadau Refeniw i Gyfalaf | 400 | 300 | 300 | 300 | 300 |
| Benthyca | 0 | 0 | 3,499 | 3,875 | 3,575 |
| Prydlesu a Menter Cyllid Preifat | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **Cyfanswm Ariannu** | **5,565** | **9,221** | **9,699** | **6,694** | **4,193** |

2. **Amcangyfrifon o Ofyniad Ariannu Cyfalaf**

Mae'r angen gwaelodol i fenthyca at ddibenion cyfalaf yn cael ei fesur gan y Gofyniad Ariannu Cyfalaf (CFR) tra mai cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy a chyfalaf gwaith yw'r adnoddau gwaelodol sydd ar gael i'w buddsoddi.

Ar 1 Ebrill 2015 roedd gan y CHTh ofyniad ariannu cyfalaf agoriadol o £7.309 miliwn (ac eithrio Menter Ariannu Breifat) yn erbyn cyfanswm asedau penodol wedi'u cofnodi ar y fantolen o £73.912 miliwn. Yn ystod 2015/16 cymhwysodd y CHTh £7.308 miliwn o'i gronfa wrth gefn cyfalaf i'r CFR er mwyn gostwng y balans i sero.

Mewn perthynas â'r cynlluniau gwariant cyfalaf a amlinellir yn y strategaeth gyfalaf, bydd yn rhaid i'r CHTh fenthyca cyfanswm o £7.235 miliwn yn ystod y cyfnod 2018/19 i 2019/20. Rhaid i'r CHTh wneud ad-daliadau blynyddol o'r gyllideb refeniw am log ac ad-daliad o'r prifswm yn unol â'r polisi MRP a amlinellir isod.

Ar hyn o bryd mae'r CHTh yn edrych am ffyrdd o ostwng yr angen i fenthyca yn 2018/19 a 2019/20.

Serch hynny, yn y cynllun ariannol tymor canolig cyfredol, tybir y bydd gofyniad ar gyfer benthyca allanol o 2018/19 ymlaen.

| Gofyniad Ariannu Cyfalaf | 31.03.17 Diwygiedig £mil | 31.03.18 Amcan £mil | 31.03.19 Amcan £mil | 31.03.20 Amcan £mil |
|---|---|---|---|---|
| **Gofyniad Ariannu Cyfalaf Agoriadol** | 0 | 0 | 0 | 3,499 |
| **Llai: Ad-daliad Gofynnol Blynyddol o refeniw** | 0 | 0 | 0 | 139 |
| **Ychwanegu: Benthyca Newydd** | 0 | 0 | 3,499 | 3,875 |
| **Gofyniad Ariannu Cyfalaf Terfyn** | 0 | 0 | 3,499 | 7,235 |

## 3. Dyledion Gros a'r Gofyniad Ariannu Cyfalaf

Er mwyn sicrhau dros y tymor canolig y bydd y ddyled at ddiben cyfalaf yn unig, mae paragraff 44 y Cod Darbodus yn datgan y dylai'r CHTh sicrhau nad yw dyled, ac eithrio yn y tymor byr, yn fwy na chyfanswm y gofyniad ariannu cyfalaf yn y flwyddyn flaenorol ynghyd ag amcangyfrifon o unrhyw ofyniad ariannu cyfalaf ychwanegol ar gyfer y flwyddyn ariannol gyffredinol a'r ddwy flwyddyn ariannol nesaf. Mae hyn yn ddangosydd allweddol ar bwyll.

Rydym yn torri'r dangosydd hwn ar hyn o bryd, er bod hyn yn cael ei ganiatáu yn y tymor byr. Rydym yn ei dorri o ganlyniad i gymhwyso cronfeydd wrth gefn yn erbyn y CFR yn 2015/16 i ostwng y balans i sero. Pan gafodd y penderfyniad ei wneud fe wnaethom adrodd y byddem yn torri'r dangosydd hwn oherwydd ein bod yn dal dyled hanesyddol nad oedd, am resymau ariannol, yn economaidd i'w ad-dalu yn llwyr.

Ar hyn o bryd rydym yn edrych ar ffyrdd o ostwng yr angen i fenthyca yn allanol yn 2018/19 a 2019/20 ac i gydymffurfio unwaith eto gyda pharagraff 44 y Cod.

Bydd yr holl benderfyniadau benthyca yn cael eu gwneud gan y CHTh wedi'i gynghori gan Brif Swyddog Ariannol y CHTh.

| Dyled | 31.03.17 Diwygiedig £mil | 31.03.18 Amcan £mil | 31.03.19 Amcan £mil | 31.03.20 Amcan £mil |
|---|---|---|---|---|
| Benthyca | 2,298 | 2,125 | 5,435 | 8,924 |
| **Cyfanswm Dyledion** | **2,298** | **2,125** | **5,435** | **8,924** |

4. **Ffin weithredol ar gyfer Dyledion Allanol**
Mae'r ffin weithredol wedi'i seilio ar amcan y CHTh o'r achos fwyaf tebygol h.y. darbodus, ond nid y senario achos gwaethaf ar gyfer dyledion allanol. Mae'n cysylltu'n uniongyrchol amcangyfrif y CHTh o wariant cyfalaf, y gofyniad ariannu cyfalaf a gofynion llif arian, ac mae'n offeryn rheoli allweddol ar gyfer monitro yn ystod y flwyddyn. Mae rhwymedigaethau hirdymor eraill yn cynnwys les cyllid, Menter Ariannu Breifat a rhwymedigaethau eraill nad ydynt yn fenthyciadau ond yn ffurfio rhan o ddyled y CHTh.

Dangosir y cyfyngiadau sydd wedi'u gosod yn y tabl isod:

| Ffin Weithredol | 2016/17 Cyfyngiad £mil | 2017/18 Cyfyngiad £mil | 2018/19 Cyfyngiad £mil | 2019/20 Cyfyngiad £mil |
|---|---|---|---|---|
| Benthyciadau | 18,100 | 18,100 | 18,100 | 18,100 |
| Rhwymedigaethau hirdymor eraill | 1,000 | 1,000 | 1,000 | 1,000 |
| Cyfanswm y Ddyled | 19,100 | 19,100 | 19,100 | 19,100 |

5. **Cyfyngiad Awdurdodedig ar gyfer Dyled Allanol**
Y cyfyngiad awdurdodedig yw'r cyfyngiad benthyca fforddiadwy a bennir i gydymffurfio â'r Ddeddf Llywodraeth Leol 2003. Dyma'r swm uchaf o ddyledion y gall y CHTh fod mewn dyled yn gyfreithiol. Mae'r cyfyngiad awdurdodedig yn cynnig ychydig o le uwchlaw'r ffin weithredol ar gyfer symudiadau arian anarferol.

Dangosir y cyfyngiadau sydd wedi'u gosod yn y tabl isod:

| Cyfyngiad Awdurdodedig | 2016/17 Cyfyngiad £mil | 2017/18 Cyfyngiad £mil | 2018/19 Cyfyngiad £mil | 2019/20 Cyfyngiad £mil |
|---|---|---|---|---|
| Benthyciadau | 23,100 | 23,100 | 23,100 | 23,100 |
| Rhwymedigaethau hirdymor eraill | 1,000 | 1,000 | 1,000 | 1,000 |
| Cyfanswm y Dyledion | 24,100 | 24,100 | 24,100 | 24,100 |

6. **Cymhareb Costau Ariannu i Ffrwd Refeniw Net**
Mae hwn yn ddangosydd fforddiadwyedd ac yn tynnu sylw at oblygiadau refeniw ar wariant cyfalaf cyfredol ac arfaethedig trwy adnabod cyfran y gyllideb refeniw sy'n ofynnol i fodloni costau cyllido, net o'r incwm buddsoddi. Mae'r dangosydd hwn yn dangos costau ariannu yng nghyd-destun y gyllideb gyfan.
Disgwylir i hyn gynyddu yn ystod y cyfnod oherwydd y gofyniad i ymgymryd â benthyciadau i gefnogi'r buddsoddiad sy'n ofynnol o ganlyniad i'r Rhaglen Gyfalaf.

Rhagwelir y bydd yn parhau o dan 1% o'r gyllideb gyffredinol a chan hynny ni ddylai gynnig unrhyw broblemau hirdymor i fforddiadwyedd a chynaliadwyedd.

| | **2016/17 Diwygiedig £mil** | **2017/18 Amcan £mil** | **2018/19 Amcan £mil** | **2019/20 Amcan £mil** | **2020/21 Amcan £mil** |
|---|---|---|---|---|---|
| Costau Ariannu | 24 | 109 | 233 | 507 | 780 |
| Ffrwd Refeniw Net | 93,342 | 96,616 | 96,137 | 95,861 | 98,292 |
| | | | | | |
| **Cymhareb y Costau Ariannu i Ffrwd Refeniw Net** | 0.03% | 0.11% | 0.24% | 0.53% | 0.79% |

7. **Effaith Gynyddrannol Penderfyniadau Buddsoddiad Cyfalaf**
   Mae hwn yn ddangosydd fforddiadwyedd sy'n dangos effaith penderfyniadau buddsoddiad cyfalaf ar lefelau'r Dreth Gyngor. Yr effaith gynyddrannol yw'r gwahaniaeth rhwng gofyniad cyfanswm cyllideb refeniw'r rhaglen gyfalaf gymeradwy gyfredol a'r gofyniad cyllideb refeniw sy'n deillio o'r rhaglen gyfalaf arfaethedig.

| **Effaith Gynyddrannol ar Benderfyniadau Buddsoddiad Cyfalaf** | 2017/18 Amcan £ | 2018/19 Amcan £ | 2019/20 Amcan £ |
|---|---|---|---|
| Cynnydd yn Nhreth y Cyngor band D blynyddol | -0.03 | 0.38 | 0.92 |

**Datganiad Darpariaeth Isafswm Refeniw Blynyddol 2017/18**

Ble mae'r CHTh yn ariannu gwariant cyfalaf trwy ddyled, rhaid iddo neilltuo adnoddau i ad-dalu'r ddyled honno yn ystod blynyddoedd diweddarach. Mae'r swm a godir i'r gyllideb refeniw ar gyfer ad-dalu dyled yn cael ei alw yn Ddarpariaeth Isafswm Refeniw (MRP) er nid oes unrhyw isafswm statudol wedi bod ers 2008. Mae'r Ddeddf Llywodraeth Leol 2003 yn gofyn i'r CHTh ystyried Canllawiau Llywodraeth Cymru ar Ddarpariaeth Isafswm Refeniw.

Nod cyffredinol canllawiau LlC yw sicrhau bod dyledion yn cael eu had-dalu sydd naill ai'n weddol gymesur gyda'r hynny y mae gwariant cyfalaf yn darparu buddion ar ei gyfer neu, yn achos benthyca sydd wedi'i gefnogi gan Grant Cymorth Refeniw Llywodraeth, sy'n weddol gymesur â'r cyfnod ymhlyg wrth benderfynu ar y grant hwnnw.

Mae canllawiau LlC yn gofyn i'r CHTh gymeradwyo datganiad Darpariaeth Isafswm Refeniw blynyddol bob blwyddyn, ac mae'n argymell nifer o opsiynau ar gyfer cyfrifo swm darbodus o Ddarpariaeth Isafswm Refeniw.

Er y rhagwelir y bydd y CFR yn parhau ar sero am rai blynyddol (a chan hynny bydd Darpariaeth Isafswm Refeniw yn sero), bydd y polisi yn parhau i gael ei ddefnyddio i amcangyfrif ffioedd Darpariaeth Isafswm Refeniw yn y dyfodol i'r cyfrif refeniw am y blynyddoedd i ddod wrth osod y cynllun ariannol tymor canolig a'r rhaglen gyfalaf.

Dim ond opsiynau a argymhellir yn y canllawiau y mae'r datganiad a ganlyn yn ei gynnwys:

**DATGANIAD DARPARIAETH ISAFSWM REFENIW (MRP) BLYNYDDOL**

Mae'r polisi a ganlyn wedi'i osod gan y CHTh mewn perthynas â Darpariaeth Isafswm Refeniw ar gyfer 2017/18.

**Benthyca â Chymorth - Dull Gofyniad Ariannu Cyfalaf**

Mae Darpariaeth Isafswm Refeniw'r un faint â 4% o'r Gofyniad Cyllido Cyfalaf â Chymorth ar ddiwedd y flwyddyn ariannol flaenorol. Ar gyfer 2017/18 amcangyfrifir fod hyn yn sero.

**Benthyca Darbodus - Dull Dibrisiant**

Bydd Darpariaeth Isafswm Refeniw yn gyfartal â'r ddarpariaeth sy'n ofynnol yn unol â chyfrifo dibrisiant yng nghyswllt yr ased y mae'r gwariant wedi'i ariannu gan fenthyciad darbodus neu drefniadau credyd digymorth.

(a) Bydd Darpariaeth Isafswm Refeniw yn parhau i gael ei wneud yn flynyddol hyd nes y bydd swm cronnus darpariaeth o'r fath yn gyfartal â'r gwariant gwreiddiol a gyllidwyd.

(b) Wrth waredu ar yr ased, ni fydd swm y dderbynneb cyfalaf yn cael ei ddwyn i'r cyfrif refeniw a bydd y CHTh yn cydymffurfio â gofynion arferol y Ddeddf 2003 ar ddefnydd derbynebau cyfalaf.

(c) Ble mae canran y gwariant ar yr ased a ariannwyd trwy fenthyciad darbodus neu drefniadau credyd digymorth yn llai na 100%, bydd Darpariaeth Isafswm Refeniw yn gyfartal â'r un ganran o'r ddarpariaeth sy'n ofynnol o dan gyfrifo dibrisiant.

**Les Cyllid a Menter Ariannu Breifat**

Yn achos lesau cyllid a chytundebau Menter Ariannu Breifat mantolen, bydd gofyniad Darpariaeth Isafswm Refeniw yn cael ei ystyried wedi'i fodloni gan dâl sydd gyfwerth ag elfen o'r rhent/ffi sy'n mynd tuag at ostwng rhwymedigaeth y fantolen.